***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, ATODLEN 2. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 2

(a gyflwynir gan adran 34(3))

## YR HYN SYDD I'W GYNNWYS YN Y GOFRESTR

*Gwybodaeth gyffredinol*

1 Rhaid i gofnod person yn y gofrestr gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

(a) enw'r person;

(b) unrhyw enw masnachu a ddefnyddir gan y person;

(c) datganiad ynghylch pa un a yw'r person cofrestredig yn gorff corfforaethol, yn unigolyn, yn bartneriaeth neu'n gorff anghorfforedig;

(d) cyfeiriad busnes y person;

(e) cyfeiriad neu ddisgrifiad o bob safle tirlenwi awdurdodedig y mae'r person yn weithredwr arno;

(f) y rhif cofrestru a aseinir i'r person gan ACC.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 2 para. 1 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** Atod. 2 para. 1 mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 2(y)**

*Aelodau cynrychiadol grwpiau corfforaethol: gwybodaeth ychwanegol am grŵp*

2 Os yw'r person cofrestredig yn aelod cynrychiadol grŵp o gyrff corfforaethol a ddynodir o dan adran 77, rhaid i gofnod y person yn y gofrestr gynnwys—

(a) datganiad o'r ffaith honno;

(b) enw a chyfeiriad busnes pob corff corfforaethol arall sy'n aelod o'r grŵp;

(c) cyfeiriad neu ddisgrifiad o bob safle tirlenwi awdurdodedig y mae unrhyw aelod o'r grŵp yn weithredwr arno;

(d) enw a chyfeiriad busnes unrhyw gorff corfforaethol neu unigolyn nad yw'n aelod o'r grŵp ond sy'n rheoli (naill ai'n unigol neu mewn partneriaeth) ei holl aelodau (gweler adran 78).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Atod. 2 para. 2 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I4** Atod. 2 para. 2 mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 2(y)**

*Partneriaethau a chyrff anghorfforedig: gwybodaeth ychwanegol am aelodau*

3 Pan fo partneriaeth neu gorff anghorfforedig wedi ei chofrestru neu ei gofrestru yn enw'r bartneriaeth neu'r corff, rhaid i'r cofnod amdani neu amdano yn y gofrestr gynnwys enwau a chyfeiriadau pob un o'i aelodau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Atod. 2 para. 3 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I6** Atod. 2 para. 3 mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 2(y)**

*Dehongli*

4 At ddibenion yr Atodlen hon, cyfeiriad busnes corff corfforaethol, partneriaeth neu gorff anghorfforedig yw cyfeiriad ei swyddfa gofrestredig, ei brif swyddfa neu ei phrif swyddfa.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Atod. 2 para. 4 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I8** Atod. 2 para. 4 mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 2(y)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, ATODLEN 2.